DRAFT

CYFARFOD BLYNYDDOL

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, MAI 2 2019 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0105/19 - Presennol.

Cynghorwyr , Eric W. Roberts, M. Sol Owen, Parch Ioan Gruffydd, D. O. Jones, Mici Plwm, Ffiona Adams, E. J. Hughes, Dylan Bullard, Hefin Underwood, Henry Rees Williams, Elfed Gruffydd, Dr Iwan Edgar.

Clerc E. Price.
……..

Cof; - 0205/19 - Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr; A. Williams, Elin Hywel.

……

Cof; - 0305/19 - Cynigwyd Eric W. Roberts fel Maer i'r dref i flwyddyn 2019-2020 gan Cyng. Henry Rees Williams. Eiliwyd y cynnig gan Cyng. Michael Sol Owen.
Doedd dim cynnig arall.
Derbyniwyd y cynnig trwy bleidlais heb wrthwynebiad.

Maer yn cymryd y gadair wedi darllen ac arwyddo'r datganiad.

……

Cof;-0405/19 - Cynigwyd Mici Plwm fel Dirprwy Faer i'r dref i flwyddyn 2019-2020 gan Cyng. E. J. Hughes. Eiliwyd y cynnig gan Cyng. Hefin Underwood.
Doedd dim cynnig arall.
Derbyniwyd y cynnig trwy bleidlais heb wrthwynebiad.

Dirprwy Maer yn darllen ac arwyddo'r datganiad.

……

Cof;-0505/19 - Datgan Diddordeb.

Dim diddordeb yn cael ei ddatgan.

……
Cof; - 0605/19 - Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

…….

Cof; - 0705/19 - Gair gan y Maer.

Gair ac adroddiad blynyddol y Maer yn y llyfr cofnodion.

…….

Cof;- 0805/19 - Penodi neu enwebu (neu gadarnhau penodid neu enwebiad) cynrychiolwyr ar gyrff a/neu bwyllgorau gwahanol.

- Pwyllgor ardal chwarterol Unllais Cymru. Cytuno i'r Maer neu ddirprwy gynrychioli.
  - Pleidlais i gynrychioli Un Llais Cymru ar Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr. Cytuno i bleidleisio tros Cyng. Mike Parry fel cynrychiolydd.

.....

Cof;-0905/19 - Dogfennau rheolaeth yn cynnwys Rheolau Sefydlog a Rheolau ariannol. (mae clerc wedi ysgrifennu atodiad i'r rheolau ariannol i gyd fynd a dogfen panel cydnabyddiaeth annibynnol Cymru).
Cytuno ar argymell yr Is Bwyllgor arian a busnes i dderbyn yr holl ddogfennau i flwyddyn 2019-20.

……

Cof;-1005/19 - Polisïau - argymhellion Is-bwyllgor ariannol a busnes i dderbyn holl bolisïau a dogfennau rheolaeth y Cyngor am flwyddyn 2019-20.

Cytuno i dderbyn.

.....

Cof;-1105/19 - Materion cyfansoddiadol a staff.

Printar newydd yn y swyddfa.

……

Cof; - 1205/19 - Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Ebrill, 2019 fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

…….

Cof; - 1305/19 - Adroddiad clerc.

Derbyniwyd yr adroddiad . Adroddiad yn y llyfr cofnodion.

Roedd archwiliad mewnol ar gyfrifon y Cyngor bore ail Fai. Roedd yr archwilydd yn hapus gyda'r cyfrifon.

…….

Cof;-1405/19 - Cynllunio.

C19/0304/45/CA- Torri a thocio coed mewn Ardal Gadwraeth. 1 Plas Tanrallt, North Street. Dim gwrthwynebiad.

……..

Cof;-1505/19 - Toiledau'r dref. Cyng. Hefin Underwood.

Yn dilyn ymateb y prif weithredwr ar y gost o hel arian toiled y Maes, y clerc i lythyru'r swyddog priodol i ofyn i'r Cyngor Sir gysidro ffordd mwy cost effeithiol i'r gweithgaredd yma.
.....

Cof;- 1605/19 - Lleoliad Penddelw Cynan- disgwyl i'r Neuadd paratoi'r lle cytunwyd ar.
.....

Cof;- 1705/19 - Tybiau blodau. Cyng. Henry Rees Williams.
Cyng. Henry Rees Williams yn datgan bod SPAR am roi arian bagiau plastic i`r Cyngor Tref. Hyn i fynd at brosiect Tybiau blodau. Cyngor yn ddiolchgar i SPAR. Bydd y swm oddeutu £2,500.
Cyng. Michael Sol Owen ar Cyng. Henry Rees Williams i paratoi costau at y cyngor nesaf.
.....
Cof;- 1805/19 - Baneri i'r Maes. Cyng. Henry Rees Williams.

Cytuno ar gael tri set o wahanol faneri i'r Maes. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i wahanol achlysuron. Cynghorwyr Michael Sol Owen a Henry Rees Williams i gael cynlluniau at y cyfarfod nesaf.

.....

Cof; - 19-05/19 - Marchnad Sul. Llythyr ar y bwrdd.
Y Cyngor yn siomedig nad yw bwriad y Farchnad Sul sef marchnad i gynnyrch lleol yn bodoli. Y clerc i ymateb i lythyr y swyddog priodol i ddatgan pryder ar gyfansoddiad presennol y farchnad Sul.
Cyng. Hefin Underwood i wneud ychydig o ymchwil ar farchnadoedd eraill sydd yw gweld yn tynnu cynhyrchwyr lleol.
.....

Cof;-2050/19 - Cyng. E. J. Hughes.

• Traffic Pwllheli. Clerc i lythyru'r swyddog priodol i ofyn am ddiweddariad i fater traffig Stryd Moch. Dim penderfyniad wedi ei wneud ers adroddiad Richard Brun & Assosiates ar system traffic y dref.

• Llinellau gwynion - mae swyddog priodol y Cyngor Sir wedi cytuno i gerdded o gwmpas y dref gyda rhai cynghorwyr iddynt gael trafodaeth am eu pryderon.

• Allanfa i Faes parcio Penlan - mae Rhagor o dyllau angen eu llenwi. Clerc i lythyru.

…….

Cof;-2105/19 - Papur pleidleisio ar gyfer Bwrdd cyfeiriol budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.
Cytuno i bleidleisio tros Cyng. Mike Parry.
…….
Cof;-2205/19 - Gwybodaeth ar arwyddion i siopau'r dref- clerc.

Swyddog Cyngor Sir o'r farn bod yr arwyddion sydd yn arwain i'r Stryd Fawr yn ddigonol, ond yn fodlon edrych ar gyflwr yr arwyddion, a yw'r arwyddion yn arwain i'r llefydd cywir a chael mapiau yn y meysydd parcio.

Clerc i yrru llythyr swyddogol i ofyn i hyn ddigwydd.

……

Cof;-2305/19 - Arian cyfatebol i arian PACT yr Heddlu- gwariant tan ddeddf LG and Rating Act 1997 s. 31 atal troseddu.

Cytuno i gyfrannu arian cyfatebol o £750.

……

Cof;-2405/19 - Materion angen trafodaeth.

- llwybr cyhoeddus sy'n rhedeg efo'r golff i gyfeiriad Carreg y Defaid. Clerc i lythyru i gadw'r llwybr ar yr hen lon drol.
- Compound Cei Gogledd- Clerc i lythyru oherwydd cyflwr difrifol y safle.
- Cyfarfod i drafod cyffuriau 9fed o Fai am 6yh.
- Cyfraniad Gŵyl fwyd- cytuno i'r ail gyfraniad o £1,000. Bob lwc i'r Ŵyl Fwyd.

……

Derbyniadau - cytunwyd.

250	Rhent Adams	CR
250	Rhent Adams	CR

……

Cof;-2604/19 -Taliadau - cytunwyd.

26. Taliadau.

61.73	Anghenion swyddfa- ffeiliau (highlighters).	203114
620.40	Contract 3 blwyddyn y cloc.	203115
683	Aelodaeth Unllais Cymru 2019-20.	203116
809.23	Delwedd - Gwefan y Cyngor 2019-20.	203117
503.05	Treth Dwr.	203118
4156	Treth y Cyngor.	DD
370.50	HMRC.	203120
937.06	Costau gweinyddol rhedeg y Siambr.	sieciau

Daeth y Cyngor i ben am 8 30 y.h.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref Nos Iau 6ed o Mehefin 2019.

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 30 Mai 2019.